Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Swyddfa Cymru

2 Rhagfyr 2016

Annwyl Alun

Bil Cymru

Yn ein cyfarfod ar 28 Tachwedd, ystyriwyd canlyniad y broses o graffu ar Fil Cymru yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Wrth wneud hynny, aethom ati i gymharu'r gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil â'r adroddiad y gwnaethom ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Hydref.

Nodwyd hefyd fod rhai o'r safbwyntiau a fynegwyd gennym yn ein hadroddiad wedi'u hadleisio gan Bwyllgor y Cyfansoddiad a Phwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, yn ogystal â rhai o'r Arglwyddi yn y ddadl ar y Bil yn ystod y Cyfnod Pwyllgor.

Rydym yn cydnabod bod rhai agweddau ar y Bil wedi'u newid er gwell, ac y cafwyd ymrwymiadau i gyflwyno gwelliannau ychwanegol. Er ein bod yn croesawu hyn, nid yw'n newid y problemau sylfaenol gyda'r Bil sydd, fel rydym wedi'u nodi, yn debygol o'i gwneud yn anodd i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud cyfreithiau cydlynol a hygyrch i bobl Cymru.

Fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, mae'r Bil yn parhau i fod yn gymhleth ac yn astrus. Ni fydd yn sicrhau'r setliad cadarn a pharhaol y mae pob un ohonom am ei weld. O ganlyniad, rydym yn poeni y bydd perygl cynyddol y caiff deddfwriaeth i Gymru a wneir gan Gynulliad Cymru ei chyfeirio at y Goruchaf Lys, gan arwain at gostau ac oedi diangen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Yr hyn sydd wrth wraidd strategaeth arfaethedig Llywodraeth y DU yw setliad sy'n diogelu'r awdurdodaeth gyfreithiol unedig. Nid ydym wedi'n hargyhoeddi y gall hyn barhau fel yr egwyddor graidd y dylid seilio datganoli arni. Fel y mae, ni yw'r unig ddeddfwrfa yn y Gymanwlad heb ein hawdurdodaeth ein hunain. Mae'r Arglwydd Brif Ustus wedi dweud bod y sefyllfa yn amlwg yn datblygu wrth i ragor o gyfreithiau i Gymru gael eu gwneud ac wrth i gyfreithiau i Loegr ychwanegu at y broses o ymwahanu.

Yr ydym wedi gweld y llythyr, dyddiedig 23 Tachwedd, a anfonodd Prif Weinidog Cymru atoch ynglŷn â sefydlu comisiwn statudol ar gyfiawnder yng Nghymru. Rydym yn cymeradwyo cynnwys y llythyr hwn yn llwyr. Os yw'r Bil am sicrhau cydsyniad, ymddengys y byddai'n gyfaddawd rhesymol derbyn argymhelliad Prif Weinidog Cymru i sefydlu Comisiwn ar Gyfiawnder sy'n cynnwys y ddwy lywodraeth.

Felly, rydym yn credu y byddai newid y Bil fel yr awgrymodd y Prif Weinidog yn ffordd dderbyniol ymlaen ar fater o bwys sylweddol i'r setliad datganoli.

Fel sylw cyffredinol, gwelwn fod yr amserlen ar gyfer y Bil yn cael ei chyflymu o ganlyniad i faterion eraill. Nid ydym yn credu ei bod yn dderbyniol na'n briodol ymdrin yn y fath fodd â Bil ac iddo gymaint o arwyddocâd cyfansoddiadol i'r Deyrnas Unedig.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Brif Weinidog Cymru.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.